# Arfarniad cryno o effaith blaenoriaethau gwella 2024/25

1. **Datblygu Llwybrau Dysgu Cwricwlwm Y Bont (CyB), a chynnydd disgyblion ymhellach (Cam-3) drwy:**
   i) **Cynnwys yr holl ddosbarthiadau lled-ffurfiol o fewn "Mapio ag asesu cynnydd personol".**
   ii) **Ymestyn "Evidence for Learning" draws ysgol (dim peilot bellach)**
   iii) **Cryfhau'r cyswllt rhwng asesu a chynnydd o fewn CyB**
   iv) **Wedi ymateb i'r strategaeth YGG yn llawn erbyn 2025.**

*Mae datblygiad sylweddol i'w weld yn trefniadau mapio ag asesu cynnydd personol draws ysgol, ac o ganlyniad mae gwreiddio arwyddocaol ymhob dosbarth wedi digwydd wrth weithredu ar amcanion "Evidence for Learning". Mae rhieni a rhanddeiliaid eraill yn medru derbyn data a thystiolaeth gadarn o gynnydd disgyblion bellach, gan gryfhau'r a thriongli ein cwricwlwm arbenigol. Mi fyddwn yn gwerthuso hyn ymhellach wrth gychwyn ar Gam 4 o fireinio a gwella Cwricwlwm Y Bont.*

*Mae data cychwynol diwedd flwyddyn ysgol yn amlinellu'r canlynol fel trosolwg ysgol gyfan;*

*18.7% - Cynnydd Rhagorol*

*42.9% - Cynnydd da*

*37.7% - Cynnydd*

*0.7% - llithro*

*Rydym yn falch iawn o fedri adrodd ein bod wedi derbyn ail-achrediaeth fel 'Ysgol Cyfathrebu Gyfeillgar', y tro hwn gydâ'r pwyslais yn benodol ar 'Anghenion Cymhleth' (Complex Needs).*

2. **Adolygu'r Llwybrau achredu ol-14, fel ei bod yn fwy gyflenwol/addas i esblygiad y Llwybrau Dysgu (anffurfiol/lled-ffurfiol), gan lunio llwybr a chynllun achredu (Pathway Accreditation Model) sydd yn fwy addas i ofynion/disgwyliadau y llwybrau dysgu.**

*Yn dilyn gwerthuso'r cynnig achrediadau a chymhwysterau ol-14, rydym wedi cyflwyno fframwaith newydd sydd yn fwy hyblyg i'r newidiadau yn anghenion ein disgyblion, ag sydd yn osgoi unrhyw gor-gyffwrdd di angen. Mae ASDAN ag Agored Cymru yn sylfaen i'r newidiadau yma.*

*Rydym hefyd wedi cymryd camau drwy trafodaethau eang â Coleg Menai i sicrhau fod yr arlwy cyrsiau 'cyswllt' (link courses) yn fwy addas a pherthnasol i ddisgyblion Canolfan Addysg Y Bont. Gwerthfawrogwn y partneriaeth agos sydd yn cryfhau rhwng yr ysgol a'r Coleg.*

3. **Cryfhau'r cyswllt rhwng – CDUs, Deilliannau, Bwriadau dysgu personol, adolygiadau asesu a chynnydd – gan well hunan werthuso'r ansawdd ac effaith draws ysgol. (Golyga hyn y bydd newid, peilot yn 24/25 i'r amserlen o gynnal/adolygu CDUs).**

*Yn dilyn blwyddyn beilot ble gwelwyd newidiadau sylweddol i galendar arferol ein prosesau adolygu, mae gwerthuso ag adborth bositif rhanddeiliaid yn golygu ein bod yn medru dod i benderfyniad fwy parhaol i fabwysiadu drefn am y cyfnod 2025-28. Mae'r drefn wedi profi'n symlach i weithredu, yn fwy synhwyrol i cyswllt cartref/ysgol ac yn bennaf mae'n cynnig gwell sylfaen i bawb weithio ar ddeilliannau'r disgyblion, gyda ffocws benodol ar yr unigolyn. Fel dilyniant pellach i hyn mae'r monitro a gwerthuso yn medru digwydd mewn hinsawdd fwy cyfunol a pharhaus rhwng yr holl rhanddeiliaid.*

4. **Parhau i ehangu'r profiadau dysgu drwy ymestyn ymhellach y defnydd (pwrpasol) o'r adnoddau allanol newydd ac arbenigol.**

*Wedi llwyddo mewn cais grant o £150,000 ar y cyd â Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, rydym yn gweithredu ar gynllun gwariant 4 cam er mwyn ehangu'r profiadau a hinsawdd dysgu allanol ymhellach. Mae'r Cam cyntaf, ar mwyaf drud, wedi'i gwblhau ac mae 5 dosbarth yn y Cynradd yn medru ymestyn y dysgu a'r addysgu yn dilyn codi canopi 75 medr o hyd y tu allan i'r dosbarthiadau. Mae'r effaith bositif ar Cwricwlwm Y Bont yn glir i'w dystio, gan elwa profiadau'r disgyblion yn sylweddol. Yn dilyn llithro yn yr amserlen, rydym bellach yn barod i weithredu ar Cam 2 (Creu Gardd Sensori o'r newydd), Cam 3 (datblygu'r ardal Garddoriaeth) a Cham 4 (creu gardd teras sensori yn ardal Cefni).*

*Serch gwaith a gwariant allanol pellach ar y pwll hydrotherapi, nid ydi'r pwll yn barod i gael ei gomiwsiynu eto, mae hyn wedi bod yn siom i ni.*

5. **Fel rhan o beilot cenedlaethol Nod Ansawdd newydd Gyrfa Cymru (peilot 3 blynedd) y mae CAYB yn rhan ohono – ymateb yn llwyddiannus i rhan 1 gofynion y Nod Ansawdd draws ysgol.**

*Mae'r ysgol wedi derbyn adroddiad allanol sydd yn cymeradwyo ymdrech a llwyddiant rhagorol wrth ymateb i Rhan 1 gofynion y Nod Ansawdd newydd Gyrfa Cymru. Mae gwybodaeth, adroddiadau a chanfyddiadau pellach i'w weld ar ardal newydd ar ein gwefan o dan y pennawd 'Gyrfa Cymru'. Mi fyddwn nawr yn canolbwyntio ar sicrhau llwyddiant i Rhan 2 y Nod Ansawdd yn 2025/26.*

*Mae linc ar ein gwefan [www.canolfanaddysgybont.cymru](http://www.canolfanaddysgybont.cymru) (o dan Llywodraeth Cymru) i'r ddogfen gyflawn; Canllaw Gwella Ysgolion.*